

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

**Pecyn gwybodaeth ar gyfer y
Cyfarfod Llawn: Bil Drafft Cymru**

Chwefror 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/0238
Rhif dogfen:14/007

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

**Pecyn gwybodaeth ar gyfer y
Cyfarfod Llawn: Bil Drafft Cymru**

Chwefror 2014

Gareth England ac Alys Thomas

Pecyn gwybodaeth i gydfynd â'r ddatl yn y Cyfarfod Llawn ar
Fil Drafft Cymru

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Crynodeb

Mae'r pecyn gwybodaeth yma'n cynnwys lincs at y dogfennau a'r trafodion allweddol hyd yn hyn mewn perthynas â Bil drafft Cymru ar gyfer dadl Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft ar 11 Chwefror 2014.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Dogfennau Allweddol.....	2
3.	Busnes y Cynulliad	4
4.	Gwaith craffu cyn deddfu yn San Steffan.....	6
5.	Adroddiadau'r wasg.....	8

Pecyn gwybodaeth ar gyfer y Cyfarfod Llawn: Bil drafft Cymru

Dyddiad y ddadl: 11 Chwefror 2014

1. Cyflwyniad

Cafodd y Bil drafft Cymru ei osod yn y Senedd gan Lywodraeth y DU ar 18 Rhagfyr 2013.

Mae prif darpariaethau'r Bil drafft yn ymwneud â datganoli pwerau trethu a benthyca i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn dilyn ymateb Llywodraeth y DU i'r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Comisiwn Silk. Mae'r Bil drafft hefyd yn gwneud newidiadau i rai o drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ceir **crynodeb llawn** o'r Bil drafft a'r darpariaethau sydd ynddo ym [mhapur y Gwasanaeth Ymchwil ar y Bil drafft Cymru](#) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014.

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi bod yn cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil yn ystod mis Ionawr 2014.

2. Dogfennau Allweddol

18 Rhagfyr 2013 – [Y Bil drafft Cymru](#)

Mae'r ddogfen yn cynnwys testun y Bil drafft yn ogystal a'r **memorandwm esboniadol** a'r **asesiad effaith cryno**.

18 Rhagfyr 2013 – [Datganiad gan Weinidog y DU](#)

Cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar y Bil drafft. Dywedodd:

“Specifically, it will enable the Assembly to legislate about devolved taxes – a Welsh tax on transactions involving interests in land (replacing stamp duty land tax in Wales) and a Welsh tax on disposals to landfill (replacing landfill tax in Wales); it establishes a mechanism by which the Assembly can trigger a referendum in Wales on the question of whether a part of income tax in Wales should be devolved; and, subject to a vote in favour in a referendum, the Bill will enable the Assembly to set a Welsh rate of income tax, in the same way as the Scottish rate of income tax in Scotland.[...]

[...] The Draft Bill also grants the Welsh Government new powers to borrow for capital expenditure and extends the circumstances in which it can borrow in the short term to manage its budget. These powers will enable the Welsh Government to borrow to invest in renewing Wales's infrastructure and support growth in the Welsh economy.

In addition, as I announced to the House in March, the Draft Wales Bill sets out how we intend to implement important changes to elections to the National Assembly for Wales. The Draft Bill extends Assembly terms permanently from four to five years, making it less likely that Assembly elections will coincide with Westminster parliamentary elections in future; it will remove the prohibition on candidates in Assembly elections standing in a constituency and on a regional list; and it will prohibit “double jobbing”, by preventing MPs from also being Assembly Members.

The draft Bill also makes minor changes to the Welsh devolution settlement that we have agreed with the Welsh Government. These include changing the name of the Welsh Assembly Government to the “Welsh Government”; providing for HM Treasury to set an aggregate borrowing limit for local housing authorities in Wales and for the Welsh Ministers to set limits for each local housing authority; and enabling the Law Commission to provide advice and information to Welsh Ministers on devolved matters.

18 Rhagfyr 2013 – [Datganiad gan Lywodraeth Cymru](#)

Cyflwynodd y Prif Weinidog ddatganiad hefyd yn dilyn cyhoeddiad y Bil drafft. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn “astudio cynnwys y Bil drafft dros yr wythnosau nesaf, a bydd yn rhoi tystiolaeth yn ystod cyfnod yr Archwiliad Cyn-ddeddfwriaethol.”

18 Tachwedd 2013 – [Grymuso a chyfrifoldeb: datganoli pwerau ariannol i Gymru](#)

Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb llawn i adroddiad y Comisiwn Silk.

Tachwedd 2012 – [Grymuso a Chyfrifoldeb: pwerau ariannol i gryfhau Cymru \(adroddiad y Comisiwn Silk 1\) | Crynodeb gweithredol](#)

Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk) ei adroddiad ar Ran 1, oedd yn ystyried pwerau ariannol presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt trethiant a benthyca. Gwnaethpwyd 33 o argymhellion yn adroddiad y Comisiwn.

Rhestrir yr argymhellion yn y [crynodeb gweithredol](#).

3. Busnes y Cynulliad

20 Ionawr 2014 – Datganiad i'r Wasg: Mwy o reolaeth a capasiti – y Llywydd yn cyflwyno ei gweledigaeth ar gyfer Cynulliad â mwy o bwerau ariannol

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig ar 20 Ionawr 2014, cyhoeddwyd datganiad newyddion gan y Cynulliad yn amlinellu tystiolaeth Y Llywydd i'r Pwyllgor.

Cyflwynodd y Llywydd ei gweledigaeth ar gyfer Cynulliad gyda phwerau ariannol ehangach, gan alw ar i'r Cynulliad fedru rheoli'r broses o bennu ei gyllideb ei hun ac hefyd ar gyfer cynyddu capasiti'r Cynulliad, er mwyn sicrhau y gellir craffu'n briodol ar unrhyw bwerau trethu a benthyca newydd.

22 Ionawr 2014 – Cwestiwn Llafar

Simon Thomas

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau Bil Cymru drafft ar ei dyletswyddau? OAQ(4)0355(FIN)

Jane Hutt

Gyda hynt Bil drafft Cymru, bydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cael pwerau newydd pwysig mewn perthynas â benthyca a threthiant. Rwy'n arwain y gwaith o weithredu a gwneud y defnydd gorau o'r pwerau hynny.

Simon Thomas

A ydych chi'n rhannu fy mhryder i nad yw'r Bil drafft yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer creu swyddogaeth Trysorlys, sef swyddogaeth y bydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru er mwyn ymdrin â phwerau benthyca newydd a phwerau trethu posibl, gan gynnwys pwerau dros dreth incwm? Yn ogystal, a ydych hefyd yn rhannu fy mhryder nad oes darpariaeth ddigonol i sicrhau sut y bydd gwaith craffu'n cael ei wneud ar y gyllideb yn y cyd-destun newydd, ac mewn perthynas â rôl holl Aelodau Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwaith craffu digonol yn cael ei wneud ar y pwerau newydd?

Jane Hutt

Mae'n bwysig iawn ein bod yn datblygu ein Trysorlys. Yn amlwg, dyna'r hyn yr ydym yn ei wneud wrth arwain y blaen ar hynny. Rydym hefyd yn cymryd rhan ar lefel swyddogol a rhyng-lywodraethol o ran costau ac effeithiau datblygu'r Trysorlys hwnnw, er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau newydd. Yn sicr, byddwn am sicrhau bod cyfle llawn a chlir i graffu, o ran datblygu'r Trysorlys a'i ddarpariaeth, o ran ei gyfrifoldebau.

Suzy Davies

Weinidog, bydd Bil drafft Cymru wrth gwrs yn rhoi pwerau benthyca ichi. Pa ystyriaeth a roddwch yn awr i'r ffyrdd y gellid ymgynghori â'r Cynulliad hwn a bod yn atebol iddo ar y telerau y gellid benthyca'r arian hwnnw?

Jane Hutt

Yn amlwg, rydym yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r pwerau benthyca hynny. Teimlwn y gallem gael terfyn uwch na £500 miliwn. Mae arnom angen y cyllid hwnnw i gyflawni cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru ac anghenion seilwaith Cymru. Rydym yn eithaf clir ynglŷn â'n blaenoriaethau. Wrth gwrs, dof yn ôl i'r Cynulliad ar gyflawni'r cynlluniau hynny a'r ffordd y byddwn yn defnyddio'r pwerau benthyca.

4. Gwaith craffu cyn deddfu yn San Steffan

Mae [Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig](#) (“y Pwyllgor Materion Cymreig”) yn cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil. Cafodd y rhai sydd â diddordeb eu gwahodd i ystyried:

- A yw cynigion y Llywodraeth, fel y’u nodir yn y Bil drafft, ar gyfer datganoli ariannol a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol yn rhai cadarn? Os nad ydynt, sut y gellir gwella’r Bil drafft?
- A yw darpariaethau’r Bil drafft yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth y DU? A ellir gwella neu newid geiriad y Bil drafft?

Dechreuodd y Pwyllgor Materion Cymreig gymryd tystiolaeth lafar ddydd Mawrth 14 Ionawr 2014 ac mae’n bwriadu cyhoeddi ei adroddiad ddiwedd **mis Mawrth 2014**.

Mae lincs i drawsgrifiadau’r cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2014 ar gael isod.

30 Ionawr 2014 – [Trawsgrifiad o’r Cyfarfod](#) | [Parliament TV](#)

Sesiwn tystiolaeth lafar: Tystiolaeth gan **Andrew RT Davies AC**, Arweinydd, Ceidwadwyr Cymreig; **Kirsty Williams AC**, Arweinydd Democratiaid Rhyddfodol Cymru a **Leanne Wood AC**, Arweinydd Plaid Cymru.

30 Ionawr 2014 – [Trawsgrifiad o’r Cyfarfod](#) | [Parliament TV](#)

Sesiwn tystiolaeth lafar: Tystiolaeth gan **Y Gwir Anrh David Jones AS**, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a **David Gauke AS**, Ysgrifennydd i’r Trysorlys.

21 Ionawr 2014 – [Trawsgrifiad o’r Cyfarfod](#) | [Parliament TV](#)

Sesiwn tystiolaeth lafar: Tystiolaeth gan **Y Comisiwn Etholiadol a Graham Allen AS**, Cadeirydd, Pwyllgor Dethol Diwygio Cyfansoddiadol a Gwleidyddol, Ty’r Cyffredin.

20 Ionawr 2014 – [Trawsgrifiad o’r Cyfarfod](#) | [Parliament TV](#)

Sesiwn tystiolaeth lafar: Tystiolaeth gan **Y Fonesig Rosemary Butler AC**, Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; **Jocelyn Davies AC**, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru; **Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**, Prif Weinidog Cymru, a **Jane Hutt AC**, Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru.

16 Ionawr 2014 – [Trawsgrifiad o'r Cyfarfod](#) | [Parliament TV](#)

Sesiwn tystiolaeth lafar: Tystiolaeth gan **Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru** (*Institute of Directors Wales*), **Ffederasiwn Busnesau Bychain** (*Federation of Small Businesses*), a'r **Athro Dylan Jones-Evans OBE**, Ysgol Busnes Bryste ; **Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig** (*Royal Institution of Chartered Surveyors*), a **Dr John Ball**; **Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru** a'r **Association of Electoral Administrators**.

14 Ionawr 2014 – [Trawsgrifiad o'r Cyfarfod](#) | [Parliament TV](#)

Sesiwn tystiolaeth lafar: Tystiolaeth gan **Gerald Holtham** a'r **Athro Jim Gallagher**; **Yr Athro Richard Wyn Jones**, Cyfarwyddwr, a'r **Athro Roger Scully**, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd.

Yn ychwanegol i'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae'r **[tystiolaeth ysgrifenedig](#)** a dderbyniwyd hefyd ar gael ar wefan y Pwyllgor.

[Tystiolaeth ysgrifenedig at y Pwyllgor](#).

5. Adroddiadau'r wasg

20 Ionawr 2014 BBC News online: [*Rosemary Butler Calls for AM numbers to rise from 60 to 80*](#)

19 Ionawr 2014 BBC News online: [*Income tax power 'pretty useless' says First Minister*](#)

14 Ionawr 2014 BBC News online: [*Income tax powers 'unusable'; MPs are warned*](#)

18 Rhagfyr 2013 BBC News online: [*Law giving Wales new financial powers is published*](#)

2 Tachwedd 2013 BBC News online: [*Carwyn Jones: no income tax vote before funding reform*](#)

1 Tachwedd 2013 BBC News online: [*Wales offered tax raising powers*](#)